



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 14 Chwefror 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

117 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

118 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2019 yn rhai cywir.

119 POLISI FFIODED A CHODI TÂL 2018/19 Y CYNGOR

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol adroddiad i'r Cabinet, sy'n nodi'r adolygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2019/20, pob un i'w gweithredu o 1 Ebrill 2019 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol ar ganlyniadau'r adolygiad a gafodd ei gynnal gan y Cabinet mewn perthynas â ffioedd a thaliadau

arfaethedig y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Tynnodd sylw at amcan yr adolygiad o barhau i ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel am brisiau rhesymol.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu mai canlyniad yr adolygiad oedd cynnydd safonol arfaethedig o 2.90% mewn ffioedd a thaliadau (gan ganiatáu addasiadau talgrynnu fel sy'n briodol) ac eithrio nifer o feysydd sydd wedi cael eu cynnig i fod yn destun triniaeth benodol. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at dabl 1 yn adran 5 o'i adroddiad sy'n rhoi Crynodeb o'r ffioedd a thaliadau arfaethedig sydd ddim yn destun y cynnydd safonol arfaethedig.

Cafodd yr Aelodau wybod am y manylion mewn perthynas â Pryd-ar-glud, Prydau Canolfannau Dydd a Thai Amlfeddiannaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r incwm amcangyfrifedig sy'n cael ei greu gan y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn £42 mil mewn blwyddyn lawn. Cyn dod i ddiwedd ei adroddiad, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at benderfyniadau eraill gan y Cabinet mewn perthynas â ffioedd a thaliadau a gafodd eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 a fyddai'n cael eu cynnwys yn Strategaeth Gyllideb arfaethedig 2019/20.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Swyddogion am yr adroddiad a chyflwynodd sylwadau ar y cynnydd safonol arfaethedig o 2.90% i ffioedd a thaliadau, a dywedodd ei fod yn swm rhesymol. Gwnaeth yr Arweinydd sylw am y broses rhewi costau a nodwyd yn yr adroddiad, yn dilyn trafodaeth am yr adborth o'r broses bennu cyllideb.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd y ffaith fod costau prydau ysgol wedi rhewi a chyfeiriodd at y rhesymeg dros y rhestr ffioedd arfaethedig mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth. Nododd y cynlluniau rheoleiddio a gorfodi sydd angen i'r Awdurdod Lleol eu rhoi ar waith mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth.

Gwnaeth yr Aelodau eraill sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, gan nodi bod angen sicrhau bod pobl ifainc o fewn y Fwrdeistref Sirol yn cael llety o'r radd flaenaf, gyda'r Cyngor yn sicrhau bod landlordiaid yn gofalu am iechyd, diogelwch a lles y myfyrwyr. Cyfeiriwyd hefyd at Gynllun Achredu Eiddo Trefforest, lle byddai eiddo o fewn ardal yr achrediad yn cael gostyngiad o 10%.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r lefelau diwygiedig arfaethedig ar gyfer pob maes o ffioedd a thaliadau'r Cyngor fel sy'n cael eu gosod allan yn adran 5 o'r adroddiad ac sy'n cael eu manylu yn Atodiad 1 o'r adroddiad.
2. Adeiladu'r effaith gyllidebol net (£42 mil ar gyfer 2019/20) i gynigion strategaeth gyllideb i'w hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol.
3. Nodi'r ffioedd a'r taliadau sydd wedi'u cymeradwyo eisoes ac wedi'u cynnwys yn strategaeth gyllideb arfaethedig 2019/20 (fel sydd wedi'i amlinellu ym mharagraff 5.5 o'r adroddiad)

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen adroddiad i'r Cabinet yn amlinellu Rhaglen Gyfalaf tair blynedd y Cyngor ar gyfer 2019/20 - 2021/22, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 6 Mawrth, 2019.

Cafodd Aelodau'r Cabinet eu cyfeirio at Atodiad A o'r adroddiad, lle mae'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft tair blynedd yn cael ei hamlinellu.

Esboniodd Cyfarwyddwr y Gyfadran bod y rhaglen graidd yn cael ei chynnal am £15.934 miliwn y flwyddyn ac roedd y rhaglen gyfalaf tair blynedd yn cael ei hariannu'n llawn. Roedd risg o hyd y byddai'r derbyniadau cyfalaf rhagamcanol yn llai na'r disgwyl ond cafodd ei sicrhau y byddai rhagamcaniadau derbyniadau cyfalaf yn parhau i gael eu monitro'n agos. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i nodi bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 a 2021/22 yn cynrychioli buddsoddiad o £173.202 miliwn, yn ogystal â darparu gwybodaeth am y buddsoddiad yma.

Cafodd Aelodau'r Cabinet eu cyfeirio at adran 5 o'r adroddiad, lle mae amlinelliad o fuddsoddiad pellach a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae Adran 5.3 yn tynnu sylw at ganlyniadau asesiad risg manwl o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a rhoddodd farn ar i ba radd y bydd modd rhyddhau unrhyw symiau. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu mai cyfanswm y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u nodi i'w rhyddhau yw £6.740 miliwn.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gyfadran yr Aelodau at y tabl sydd wedi'i amlinellu yn adran 5.7 sy'n nodi'r meysydd penodol lle mae buddsoddiad yn cael ei argymhell, fel yn unol ag amcanion a nodau cyffredinol y Cynllun Corfforaethol:

- Priffyrdd a Ffyrdd
- Strwythurau Priffyrdd
- Strwythurau Parciau
- Gwneud Gwell Defnydd / Datblygiadau Traffig
- Deuoli'r A4119
- Draenio Tir
- Parc Eco Bryn Pica
- Grantiau Eiddo Gwag
- Grantiau Cynnal a Chadw Canol Trefi (prosiect refeniw)
- Ysgolion
- Gofal Ychwanegol
- Parciau
- Mannau chwarae
- Parciau sglefr fyrddio/ardaloedd gemau amldeffnydd

- Mynwentydd
- Gwella Canolfannau Hamdden
- Trac Brenin Siôr V

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau cadarnhaol am y buddsoddiad cyfalaf, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun corfforaethol y Cyngor. Cyfeiriodd e at y posibilrwydd y bydd rhagor o grantiau ar gael yn dilyn trafodaethau diweddar gyda Phrif Weinidog Cymru. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am nifer o feysydd buddsoddi newydd a gafodd eu nodi yn yr adroddiad, gan gyfeirio at Barc Eco Bryn Pica a'r buddsoddiad mewn mynwentydd yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd sylwadau am gyni cyllidol a'r pwysau sy'n wynebu'r Cyngor a nifer o Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru. Er hynny, nododd nad oes modd i unrhyw Awdurdod Lleol arall fuddsoddi mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn yr un modd ag y mae Rhondda Cynon Taf yn ei wneud, a diolchodd i'r Arweinydd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a'r swyddogion cyllid eraill a fu'n rhan o'r gwaith.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cynnig y rhaglen gyfalaf tair blynedd sy'n cael ei chynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad i'r Cyngor ar 6 Mawrth sy'n cynnwys:
 - I. Adolygiad a rhyddhau arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad;
 - II. Blaenoriaethau buddsoddi arfaethedig fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 5.7 o'r adroddiad sydd wedi'i atodi;
 - III. Rhaglen gyfalaf graidd y Cyngor ;
 - IV. Cyfanswm rhaglen gyfalaf y Cyngor, gan gynnwys cyllid ychwanegol sydd ddim yn gyllid craidd.

121 CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2019/2020

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ei adroddiad i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Aelodau am Setliad Llywodraeth Leol 2019/20, canlyniad y broses ymgynghori ar y gyllideb gyffredinol a'r gweithgarwch cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad. Mae hyn yn gymorth i drafodaethau'r Cabinet cyn paratoi'r strategaeth ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020, yr oedd ei hangen er mwyn ei hargymell i'r Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at Atodiad A o'r adroddiad, a oedd yn nodi cyllideb arfaethedig gan Uwch Arweinwyr y Cyngor, yn dilyn ystyried y setliad llywodraeth leol, a fu ar 19 Rhagfyr 2018. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod papur trafod Uwch Arweinwyr y Cyngor yn cynnwys elfennau allweddol strategaeth cyllideb refeniw gytbwys ar gyfer 2019/2020.

Drwy ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran yn gallu rhoi manylion i'r Aelodau am yr effeithiau ariannol posib ar Rondda Cynon Taf a'r sawl sy'n talu Treth y Cyngor, gan gynnwys enghraifft o gyllideb lefel uchel sy'n gofyn am gynydd o 3.6% yn Nhreth y Cyngor.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Gronfa Trawsnewid Gwasanaeth a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y Cyngor wedi gallu cynyddu lefel y cyllid trosiannol sydd ar gael a'r sefyllfa ddiweddaraf yw bod y gronfa hon bellach wedi cynyddu i £4.840 miliwn (arbedion yn ystod y flwyddyn o £0.175 miliwn hyd yma).

Soniodd y Cyfarwyddwr am y diweddariadau o ran y gyllideb sylfaenol, gan gyfeirio'n benodol at yr addasiad posibl ar gyfer Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r posibilrwydd y gallai'r gwaith o ariannu cronfa bensiwn yr ymladdwyr tân gael ei basio ymlaen i lywodraethau lleol os na fydd y llywodraeth ganolog yn ei hariannu. Yn amodol ar ganlyniad y penderfyniad yma, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r adroddiad strategol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn cynrychioli'r gwerth uwch ar gyfer yr ardoll.

Yn ogystal â hynny, cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at gronfa bensiwn yr athrawon, nad oedd wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r gyllideb gan fod angen aros am gadarnhad ynglŷn â maint y cyllid, a phryd y byddai'n cael ei ddarparu, er mwyn mynd i'r afael â'r goblygiadau o ran costau. Ychwanegwyd, os nad oes cyllid yn cael ei dderbyn cyn pennu'r gyllideb derfynol, yna byddai dyraniad 'dros dro' ychwanegol yn cael ei bennu o gyllid dros dro neu unrhyw arian wrth gefn arall er mwyn gwneud yn iawn am hyn ac am unrhyw effaith yn sgil ardoll addasedig y Gwasanaeth Tân.

Daeth y Cyfarwyddwr â'i adroddiad i ben drwy dynnu sylw'r Aelodau at y broses Ymgynghori a gafodd ei chynnal mewn perthynas â'r gyllideb. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi rhedeg o 5 Tachwedd, 2018 tan 17 Rhagfyr, 2018 ac wedi ymgysylltu â thros 4000 o bobl. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at y gweithgarwch cyn y cam craffu a oedd wedi'i gynnal mewn perthynas â'r gyllideb.

Siaradodd y Cadeirydd am y strategaeth arfaethedig ar gyfer y gyllideb a nododd fod y Cyngor mewn safle cadarnhaol o ganlyniad i'r modd gofalus y cafodd y gyllideb ei rheoli drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â gwaith sicrhau effeithlonrwydd ac ailfodelu gwasanaethau. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai Treth y Cyngor yn Rhondda Cynon Taf ymhlith y symiau isaf yng Nghymru, gan roi gwybod i'r aelodau am y cyhoeddiadau mewn awdurdodau lleol cyfagos. Nododd yr Arweinydd fod y swm arfaethedig o 3.6% yn is na rhai o'r newidiadau yn nhreth y Cyngor a gafodd eu hargymell gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd yn y gyllideb ysgolion, gan nodi bod y Cyngor bellach yn cynnig rhoi £5.200 yn rhagor o ganlyniad i'r setliad terfynol gwell a'r flaenoriaeth o ran cefnogi ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at yr ansicrwydd o ran pensiynau athrawon a phensiynau ymladdwyr tân, a phwysleisiodd bod y materion hyn wedi'u trafod â Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â hynny, nododd y Dirprwy Arweinydd ei phryderon mewn perthynas â chronfa bensiwn yr athrawon, a drafodwyd yng nghyfarfod diweddar Fforwm

Cyllideb yr Ysgol. Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i wneud sylwadau cadarnhaol am y broses ymgynghori ar y gyllideb ac am yr adborth gwerthfawr a gafwyd drwy'r broses, yn ogystal â'r cyfle i'r Cabinet siarad â thrigolion RhCT ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ogystal â hynny, achubodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad am y gweithgarwch cyn y cam craffu a gafodd ei gynnal mewn perthynas â strategaeth y gyllideb.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adeiladu cyllideb referniw, y broses ymgynghori cyllideb, ac adrodd i'r Cyngor, wedi'u nodi yn y "Fframwaith Cyllideb a Pholisi", sy'n cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
2. Mabwysiadu'r strategaeth gyllideb referniw ddrafft 2019/2020, sy'n cael ei manylu yn y Papur Trafod 'Atodiad A', fel sail i'r strategaeth gyllideb referniw ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020, yr hoffai argymhell i'r Cyngor, yn amodol ar ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ar y gyllideb gyffredinol ac adborth cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad.
3. Yr amserlen ddrafft ar gyfer pennu cyllideb referniw 2019/2020, sydd wedi'i nodi yn Atodiad A2.
4. Bod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r strategaeth ariannol tymor canolig gyda'r nod o sicrhau'r effeithlonrwydd parhaus o ran darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau wedi'u targedu a newidiadau eraill sy'n cynnal uniondeb ariannol y Cyngor wrth barhau i anelu cymaint â phosibl i ddiogelu swyddi a gwasanaethau allweddol.
5. Awdurdodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen i ymgorffori unrhyw benderfyniadau pellach gan y Cabinet a'r Cyngor, fel sy'n briodol, i mewn i Strategaeth y Gyllideb, gan wneud unrhyw addasiadau dilynol i gyllid trosglwyddo.

122

NODWCH ER GWYBODAETH: DERBYN DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018-19

Nododd yr Aelodau y Cynllun Dirprwyo Arweinwyr ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19, mewn perthynas â'r newidiadau i:

- Aelodaeth Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Fidler-Jones yn disodli Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths
- Grŵp Llywio Diwylliant Strategol a'r Celfyddydau - Diwygio'r Amodau Gorchwyl
- Ychwanegu Grŵp Llywio Cymdeithas Gefeillio Rhondda Cynon Taf.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**

